

983/51

**MATHEMATEG S1**

**Ystadegaeth**

A.M. DYDD IAU, 8 Mehefin 2006

( $1\frac{1}{2}$  awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- llyfr ateb 12 tudalen;
- Llyfrynn Fformiwlâu;
- cyfrifiannell;
- tablau ystadegau (Murdoch a Barnes neu Gyhoeddiadau RND/CBAC).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi bod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

1. Mae 3 losinen (fferen) mewn tun. Mae 2 ohonynt yn wyrdd ac 1 yn goch. Mae Alys yn hapdewis 1 o'r losin hyn ac yn ei bwyta. Yna, mae Bryn yn hapdewis 1 o'r 2 losinen sydd ar ôl ac yn ei bwyta. Yna mae Cai yn cymryd y losinen sydd ar ôl ac yn ei bwyta. Darganfyddwch y tebygolrwydd y caiff y losinen goch ei bwyta gan

- (a) Alys, [1]
- (b) Bryn, [2]
- (c) Cai. [2]

2. Mae'r digwyddiadau  $A$  a  $B$  fel bod

$$P(A) = 0.2, P(B) = 0.6, P(A \cup B) = 0.75.$$

- (a) Darganfyddwch a yw  $A$  a  $B$  yn annibynnol ai peidio. [4]
- (b) Darganfyddwch y tebygolrwydd bod union un o  $A$  a  $B$  yn digwydd. [4]

3. Mae gan yr hapnewidyn  $X$  ddosraniad Poisson â chymedr 4. Diffinnir yr hapnewidyn  $Y$  gan

$$Y = 2X + 8.$$

- (a) Dangoswch fod cymedr ac amrywiant  $Y$  yn hafal. [5]
- (b) O ganlyniad i hyn, mae Siôn yn credu bod gan  $Y$  ddosraniad Poisson. Eglurwch yn fyr pam nad yw hyn yn wir. [1]

4. (a) Gellir tybio bod gan nifer yr ymwelwyr sy'n galw bob dydd mewn swyddfa fach ddosraniad Poisson, cymedr 12. **Gan ddefnyddio tabl priodol**, darganfyddwch y tebygolrwydd y bydd nifer yr ymwelwyr sy'n galw ar ddiwrnod a hapdewisir

- (i) yn fwy na 10,
- (ii) union 15. [5]

- (b) Gellir tybio bod gan nifer y llythyrau sy'n cyrraedd y swyddfa bob dydd ddosraniad Poisson, cymedr 6.3. **Heb ddefnyddio tablau**, darganfyddwch y tebygolrwydd y bydd nifer y llythyrau sy'n cyrraedd ar ddiwrnod a hapdewisir

- (i) union 5,
- (ii) yn llai na 3. [5]

5. Mae siop bentref yn gwerthu wyau sydd wedi'u cyflenwi gan dair fferm leol. Mae Fferm  $A$  yn cyflenwi 40% o'r wyau, mae Fferm  $B$  yn cyflenwi 35% o'r wyau ac mae Fferm  $C$  yn cyflenwi 25% o'r wyau. Mae'n hysbys bod gan 4% o'r wyau a gyflenwir gan Fferm  $A$  ddau felynwy, bod gan 5% o'r wyau a gyflenwir gan Fferm  $B$  ddau felynwy a bod gan 6% o'r wyau a gyflenwir gan Fferm  $C$  ddau felynwy. Hapdewisir un o'r wyau hyn.

- (a) Darganfyddwch y tebygolrwydd bod ganddo ddau felynwy. [3]
- (b) O wybod bod gan yr âwya ddewiswyd ddau felynwy,
  - (i) darganfyddwch y tebygolrwydd mai Fferm  $A$  a'i cyflenwodd,
  - (ii) darganfyddwch pa fferm sydd fwyaf tebygol o fod wedi'i gyflenwi. [6]

6. (a) Pan fydd pin bawd yn cael ei daflu ar fwrdd, y tebygolrwydd y bydd yn syrthio ‘pig i fyny’ yw 0·2. Teflir pob un o'r 50 pin bawd mewn paced ar fwrdd. O wybod y dynoda  $X$  y nifer sy'n syrthio ‘pig i fyny’,
- enwch ddosraniad  $X$ ,
  - darganfyddwch gymedr a gwyriad safonol  $X$ ,
  - darganfyddwch  $P(8 \leq X \leq 12)$ . [8]
- (b) Mae'n hysbys bod 1% o binnau bawd yn ddiffygiol. Mae siopwr yn prynu 1000 o binnau bawd. Defnyddiwch frasamcan dosraniadol priodol i ddarganfod y tebygolrwydd bod llai na 10 ohonynt yn ddiffygiol. [4]

7. Rhoddir dosraniad tebygolrwydd yr hapnewidyn arwahanol  $X$  yn y tabl canlynol.

$x$	1	2	3	4	5
$P(X = x)$	$k$	$2k$	$3k$	$4k$	$5k$

- Dangoswch fod  $k = \frac{1}{15}$ . [2]
- Darganfyddwch gymedr ac amrywiant  $X$ . [6]
- Diffinnir yr hapnewidyn  $Y$  gan  $Y = X_1 + X_2$ , lle mae  $X_1, X_2$  yn arsylwadau annibynnol ar  $X$ . Darganfyddwch  $P(Y = 6)$ . [4]

8. Mae gan yr hapnewidyn di-dor  $X$  y ffwythiant dosraniad cronusus  $F$  a roddir gan

$$\begin{aligned} F(x) &= 0 && \text{ar gyfer } x < 0, \\ F(x) &= \frac{1}{2} (x^2 + x) && \text{ar gyfer } 0 \leq x \leq 1, \\ F(x) &= 1 && \text{ar gyfer } x > 1. \end{aligned}$$

- Darganfyddwch
  - $P(0.25 \leq X \leq 0.5)$ ,
  - canolrif  $X$ . [7]
- (i) Darganfyddwch fynegiad ar gyfer  $f(x)$  sy'n ddilys ar gyfer  $0 \leq x \leq 1$ , lle dynoda  $f$  ffwythiant dwysedd tebygolrwydd  $X$ .
  - Enrhifwch  $E(X)$ . [6]